# Arwain

2011

Academi Hywel Teifi

Prifysgol Abertawe Swansea University





**Academi Hywel yn tanio'r iaith**



**Technoleg: dyfeisio gêmau Cymraeg**



**Y byd: Profiad Hannah yn Ghana**



**Mwynhau trwy'r Gymraeg**



# Croeso i Arwain – ac i Abertawe!

**Gan yr Athro Iwan Davies,
Dirprwy Is-Ganghellor ar gyfer y Gymraeg, Rhyngwladoli a Materion Allanol**

Mae Prifysgol Abertawe yn brifysgol sydd â'i gwreiddiau yn ne-orllewin Cymru, ei chalon yn curo'n gadarn dros ddatblygiad a thwf Cymru ddwyieithog a'i golygon ar gysylltiadau rhyngwladol a fydd yn cyfoethogi profiadau a bywydau ein myfyrwyr ynghyd â bywyd diwylliannol ac economaidd Cymru. Mae Abertawe'n sefydliad ac iddo uchelgais, sydd yn gweithio i drawsnewid bywydau er gwell trwy roi pwyslais ar addysg drwy ymchwil.

Trwy ein cynlluniau addysgu a'n cysylltiadau rhyngwladol, mae Abertawe yn darparu profiadau arbennig i fyfyrwyr gan sicrhau bod y rhai sy'n dod yma i astudio yn gadael nid yn unig â gradd o safon a lefel uchel o sgiliau a fydd yn cynyddu eu cyflogadwyedd, ond hefyd lond côl o atgofion am gyfnod gwych yn y brifysgol ac yn ninas Abertawe. Yma yn Abertawe fe gewch chi gydbwysedd gwych rhwng addysg ac ymchwil rhagorol ac ansawdd bywyd ardderchog.

Mae bwrlwm o weithgarwch cyfrwng Cymraeg i'w gael ar ein campws ger y traeth. Yma fe gewch chi'r gorau o ddau fyd – profiad Cymraeg a Chymreig mewn prifysgol ag iddi gysylltiadau amlddiwylliannol a rhyngwladol.

Mae Prifysgol Abertawe yn arwain wrth ehangu gorwelion a chynnig cyfleoedd.

*Ymunwch â ni!*

# Tanio tros yr iaith

## Academi Hywel Teifi yw'r pwerdy i hybu'r Gymraeg

Mae gan Brifysgol Abertawe ganolfan arbennig sy'n gyrru'r ymdrechion tros y Gymraeg trwy'r sefydliad i gyd.

Yn ogystal â bod yn ganolfan ragoriaeth i astudio'r iaith a'i llenyddiaeth, mae'n hybu addysg ac ymchwil cyfrwng Cymraeg ym mhob pwnc ac yn ennill lle mwy amlwg i'r iaith ym mhob agwedd o fywyd y Brifysgol.



Fe gafodd Academi Hywel Teifi ei sefydlu yn 2010 er cof am gyn-Athro Cymraeg y brifysgol ac i barhau gyda'i waith mawr tros yr iaith a'i diwylliant.

"Mae'n fraint aruthrol cael arwain academi sy'n adeiladu'n sylweddol ar y cyfraniad hwnnw," meddai Dr Gwenno Ffrancon a gafodd ei phenodi'n gyfarwyddwr cyntaf yr Academi ddechrau'r flwyddyn.

"Mae pob math o adrannau'n dangos diddordeb, gyda phynciau'r gwyddorau a pheirianneg yn benodol yn meddwl am yr hyn y gallan nhw ei gynnig.

"Mae'r darlithwyr sy'n darlithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn aelodau o deulu'r Academi ac yn gwybod bod arweiniad ar gael - arweiniad, cefnogaeth a theimlad o gymdeithas.

Dyma yw'r Academi:

**Pwerdy i'r Brifysgol**

Mae'r Academi yn darparu cymuned ar gyfer pawb sy'n cynnig addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn y Brifysgol. Mae'n cynnig cefnogaeth strategol ac arweiniad ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ar draws holl ddisgyblaethau Prifysgol Abertawe ac i'r 3,500 o fyfyrwyr y Brifysgol sy'n siarad Cymraeg. Mae'n cefnogi darpariaeth Gymraeg gref mewn meysydd fel Ieithoedd Modern, Daearyddiaeth, Gwyddor Iechyd, Y Gyfraith ac Astudiaethau'r Cyfryngau a datblygiadau pwysig ym meysydd Mathemateg, Peirianneg, Hanes a Bio-Wyddorau

**Cartref i'r Gymraeg fel pwnc**

Mae'r Academi hefyd yn gartref i'r Gymraeg fel pwnc, gyda'r Athro Tudur Hallam yn llywio gwaith ymchwil rhagorol yn y maes. Mae'n darparu amrywiaeth eang o raglenni gradd sengl a chydanrhydedd ardderchog ar yr iaith Gymraeg a llenyddiaeth Gymraeg i fyfyrwyr israddedig, ôl-raddedig ac i oedolion sy'n ddysgwyr.

**Pwerdy i'r dysgwyr**

Dyma bwerdy i ddysgwyr – cartref Canolfan Cymraeg i Oedolion De-orllewin Cymru sy'n darparu a chynllunio ar gyfer dysgwyr Cymraeg ar draws y de-orllewin o Bort Talbot i Sir Benfro. Mae cyrsiau ar bob lefel – i rai sydd am wella'u Cymraeg yn ogystal ag i bobl sydd am ddechrau dysgu'r iaith.

**Cangen o'r Coleg Cymraeg**

Yn yr Academi mae cangen Prifysgol Abertawe o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'n bwynt cyswllt ar gyfer myfyrwyr cyfrwng Cymraeg sydd am fanteisio ar yr holl gynlluniau cyllido, yr adnoddau a'r gefnogaeth addysgol sydd ar gael gan y Coleg Cymraeg newydd.

**Pwerdy profiad gwaith – yng Nghymru a**

Mae cynlluniau eisoes ar waith i sicrhau cyfleoedd profiad gwaith mewn amrywiol feysydd i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg gan ffurfio cysylltiadau cryf gyda darpar-gyflogwyr. Mae gwaith ar droed i gynyddu'r cyfleoedd i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg o sawl maes dreulio cyfnodau'n astudio neu'n gweithio dramor.

Y nod yw sicrhau y bydd myfyrwyr Prifysgol Abertawe yn cael y gorau o ddau fyd – profiad Cymreig a Chymraeg mewn Prifysgol sydd â chysylltiadau ar draws sawl diwylliant ac ar draws y byd.



Pump uchel! 5

# Pump newydd yn rhoi hwb i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

Mae mwy a mwy o gyrsiau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg wrth i Brifysgol Abertawe benodi pum darlithydd newydd.

Cafodd pedair swydd eu cyllido gan Gynllun Staffio Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ond y Brifysgol ei hun sy'n cefnogi'r bumed.

Bydd y darlithwyr newydd i gyd yn cefnogi gwaith Academi Hywel Teifi gan gyfrannu hefyd at hybu Cymreictod ar gampws y Brifysgol.

"Mae'r Brifysgol yn hynod falch o fedru penodi'r academyddion disglair hyn i'w swyddi newydd," meddai'r Athro Iwan Davies, y Dirprwy Is-ganghellor.

Bydd y pwyslais, dywedodd, ar ddysgu trwy ymchwil ar y lefel uchaf ac mae cefnogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn dangos hyder yn "y Strategaeth Cyfrwng Cymraeg gyffrous sy'n cael ei datblygu ym Mhrifysgol Abertawe".

"Bydd ein myfyrwyr yn elwa'n eithriadol ar arbenigedd y darlithwyr newydd hyn," meddai.



**Y darlithwyr newydd O'r chwith i'r dde, Sophie Smith, Gethin Matthews, Geraldine Lublin, Elain Price a Kate Evans**

## Kate a'r rhedeg rhydd

**Pwy:** **Kate Evans**
**Adran:** Darlithydd mewn Daearyddiaeth Ddynol yng Ngholeg y Gwyddorau – un o nifer yn yr adran sy'n dysgu trwy'r Gymraeg.
**O ble:** O Benarth yn wreiddiol.
**Maes ymchwil:** Y campau dinesig, *parkour* a rhedeg rhydd, a sut y mae pobl yn dod i adnabod eu hardal a nhw eu hunain trwy brofiadau corfforol. "Mae'r rhai sy'n gwneud *parkour* yn creu lle iddyn nhw eu hunain yn y ddinas, yn profi'r ddinas trwy eu cyrff," meddai. "Iddyn nhw, nid camp eithafol yw e, ond ffordd o fyw."
**Meddai Kate:** "Mae'n wych gweld plant yn ei wneud e, ac wy'n gwybod am glybiau *parkour* yng Nghymru."
**Edrych ymlaen:** "Rwy'n gweithio ar fodiwl newydd sy'n edrych ar sut ydyn ni'n creu gofod fel stadiwm chwaraeon. Pam fod yr awyrgylch yn Stadiwm y Mileniwm mor wahanol i Barc yr Arfau?"

*3 Hoff Beth:*
- Haul yn y gaeaf
- Rhwyfo
- Cymru'n gwneud yn dda yn y rygbi!

## O'r Ariannin, trwy'r Gymraeg

**Pwy? Dr Geraldine Lublin**
**Adran**: Darlithydd mewn Sbaeneg trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr Adran Ieithoedd, Cyfieithu a'r Cyfryngau.
**O ble:** O Buenos Aires.
**Maes ymchwil**: Diwylliant a hunaniaeth Patagonia a'r Ariannin, y gymuned Gymreig yn Chubut a'r modd y caiff 'straeon' rhanbarthol a chenedlaethol eu datblygu yn America Ladin.
**Meddai Geraldine:** "Dw i'n edrych ymlaen at bob agwedd o fy swydd newydd. Mae'n gymaint haws i rywun sy'n siarad Cymraeg ddysgu Sbaeneg, mae yna gymaint sy'n gyffredin yn y ddwy iaith."
**Y fantais:** "Dw i'n credu fod dysgu iaith newydd yn bwysig dros ben. Os yw myfyriwr yn gallu siarad nifer o ieithoedd, mae'n fantais fawr yn y farchnad swyddi."

*3 Hoff Beth:*
- Chwarae gyda fy mab
- Dawnsio
- Teithio

## Yr unig un!

**Pwy? Dr Gethin Matthews**
**Adran:** Darlithydd Hanesyddiaeth yn yr Adran Hanes a Chlasuron. Ond mae'n benodiad unigryw trwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. O Abertawe, bydd yn cydweithio ag adrannau Hanes ym mhrifysgolion Aberystwyth, Bangor a Chaerdydd.
**O ble:** Llundain (ond ei rieni o Abertawe). Wedi gwneud Seicoleg yng Nghaergrawnt a gweithio i gwmnïau teledu cyn gwneud PhD.
**Maes ymchwil:** Cymry sydd wedi ymfudo, cymunedau Cymraeg dramor a dylanwad y Rhyfel Mawr ar gymdeithas a diwylliant yng Nghymru.
**Meddai Gethin:** "Dw i'n mwynhau'n fawr. Dw i'n darparu adnoddau yn y Gymraeg ac yn dysgu dros y We. Mae'n arbrofol, gan y bydda' i'n gwneud llawer o ddefnydd o e-ddysgu a Skype ac yn cynnal byrddau trafod ar y we."
**Y dyfodol:** "Mae'r Gymraeg yn cael ei pharchu gan y Brifysgol yn Abertawe. Mae'r ddarpariaeth sydd ar gael yn amlwg yn cynyddu."

*3 Hoff Beth:*
- Teulu
- Tîm pêl-droed Abertawe
- Ysgytlaeth banana

## Teimlo'n llawn cyffro

**Pwy:** **Dr Elain Price**
**Adran**: Darlithydd Astudiaethau'r Cyfryngau yn Academi Hywel Teifi.
**O ble**: O Ddolgellau'n wreiddiol.
**Maes ymchwil**: Teledu yng Nghymru, yn arbennig S4C a'i lle ym mywyd cyhoeddus a diwylliannol Cymru.
**Meddai Elain:** "Dw i'n falch iawn fy mod wedi cael y swydd hon, a dw i wrth fy modd yma yn Abertawe. Mae teimlad llawer mwy Cymreig yma rŵan na phan ddechreuais i fy ngwaith ymchwil yma yn ôl yn 2006.
**Y dyfodol:** Mae'n gyfnod hynod o gyffrous o ran y Gymraeg yn y Brifysgol, a dwi'n edrych ymlaen yn eiddgar at fwrlwm y blynyddoedd i ddod."


*3 Hoff Beth:*
- Marmite
- Ffilmiau
- Darllen

## Mwynhau gyda'n myfyrwyr

**Pwy? Dr Sophie Smith**
**Adran:** Darlithydd mewn Ffrangeg yn yr Adran Ieithoedd, Cyfieithu a'r Cyfryngau
**O ble:** Abertawe – daeth y teulu'n ôl i'r ddinas pan oedd yn 7 oed a dysgodd Gymraeg yn Ysgol Bryn y Môr.
**Maes ymchwil:** Llenyddiaeth Ffrangeg o wledydd Islamaidd. Mae'n dysgu hanes Rhyfel Algeria trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'n paratoi modiwlau ar bolisi iaith ar draws y byd ac hanes Imperialaeth ym Mhrydain a Ffrainc.
**Meddai Sophie:** "Dw i'n mwynhau fy swydd yn fawr iawn. Dw i'n mwynhau'r cyswllt gyda'r myfyrwyr."
**Y cyfleoedd:** "Dw i'n credu bod ymdrech fawr wedi bod yn y Brifysgol i hyrwyddo'r Gymraeg, a rydyn ni yn yr adran hon wedi bod yn gweithio ers sbel i gynnig cyfleoedd newydd yn y Gymraeg i'r myfyrwyr."

*3 Hoff Beth:*
- Teithio
- Ceisio cyfathrebu mewn ieithoedd eraill, hyd yn oed os nad wy'n hollol lwyddiannus!
- Mynd am dro ar y traeth

# Creu campws newydd sbon



Fe fydd gan Brifysgol Abertawe gampws newydd sbon mewn meysydd sy'n allweddol o ran dyfodol Cymru.

Y disgwyl yw y bydd yn cyfrannu £3 biliwn at economi'r wlad ac yn creu miloedd o swyddi o fewn y deng mlynedd nesaf.

Y nod yw llenwi'r bwlch mewn ymchwil a datblygu gwyddonol yn y wlad.

Gyda'r cynnydd mewn dysgu ac ymchwil trwy'r Gymraeg, fe fydd gan yr iaith hefyd le ar y Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd sydd wedi cael sêl bendith Llywodraeth Cymru.

Fe fydd yn cynnwys cyfleusterau ymchwil a phrofi newydd yn ogystal â'r Colegau a'r sefydliadau sydd eisoes wedi rhoi enw da rhyngwladol i'r Brifysgol mewn gwyddoniaeth a thechnoleg.

Fe fydd y campws yn cynnwys cyfleusterau addysgu ac ymchwil integredig ar gyfer y Coleg Peirianneg, y Coleg Gwyddoniaeth, a'r Coleg Busnes, Economeg a'r Gyfraith.

Fe fydd yr adnoddau ymchwil a phrofi'n cael eu datblygu ar y cyd gyda Rolls Royce ochr yn ochr â'r Sefydliad Gwyddor Bywyd, canolfan gyntaf Ewrop ar gyfer Nano-iechyd a'r Sefydliad Telathrebu Uwch, sydd oll yn derbyn cefnogaeth cyllid ymchwil gan gwmnïau rhyngwladol byd-eang.

Ar yr un pryd, fe fydd yn creu nifer sylweddol uwch o lefydd i fyfyrwyr ychwanegol, yn bennaf ym meysydd Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg – mae hynny'n arwydd o'r galw mawr am lefydd yn y Brifysgol.

## Lansio cangen o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae Cangen Prifysgol Abertawe o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi'i sefydlu o dan adain Academi Hywel Teifi a bydd yn cael ei lansio'n swyddogol ym mis Ionawr 2012.

Mae wedi cael lle amlwg yng nghanol y campws, yn Adeilad Keir Hardie, gyferbyn â'r caffi Cymraeg, 'Hoffi Coffi'.

Trwy'r Academi, mae'r Gangen yn darparu cefnogaeth a chymorth i bob myfyriwr ac aelod staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl ac i'r sawl sy'n dysgu'r iaith.

Mae swyddfa Swyddog y Gangen ar agor bob dydd i gynorthwyo myfyrwyr a staff Prifysgol Abertawe wrth eu gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg ac i rannu gwybodaeth am weithgareddau a chynlluniau cyllido y Coleg Cymraeg.

Mae myfyrwyr a staff y Brifysgol yn cael eu hannog i ddod yn aelodau o'r Coleg Cymraeg o'r dechrau. O fod ymhlith aelodau cyntaf erioed y Coleg, fe fyddan nhw'n cael cyfle i gyfrannu eu barn ar weithgareddau a phenderfyniadau ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn cysylltu â Swyddog y Gangen, e-bostiwch: abertawe@colegcymraeg.ac.uk

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

# Pwysigrwydd y Gymraeg yn y Gwasanaeth Iechyd – ymchwil arloesol

Mae ymchwil gan fyfyriwr PhD ym Mhrifysgol Abertawe'n dangos yn glir fod cael therapyddion sy'n siarad mamiaith cleifion yn gwella effeithiolrwydd y driniaeth.

Mae'r ystadegau sydd wedi eu casglu a'u dadansoddi gan Huw Dylan Owen yn dangos fod yr effaith yn arwyddocaol ac y gallai gwasanaethau gofal arbed arian drwy gyflogi therapyddion a staff sydd yn siarad Cymraeg.

Anghenion Ieithyddol yn y Gwasanaethau Gofal Iechyd a Chymdeithasol yw testun ymchwil Dylan, sy'n fyfyriwr PhD rhan amser ar ei bedwaredd flwyddyn gydag Academi Hywel Teifi.

Mae Dylan yn codi tri chwestiwn yn ei waith ymchwil:

A oes gwasanaethau gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg?

A yw darpariaeth therapi (therapi galwedigaethol a ffisiotherapi mewn gwasanaethau gofal canolradd) drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn effeithio ar ganlyniadau'r therapi hwnnw pan fo Cymraeg yn iaith gyntaf y claf?

Pa ddulliau a fyddai'n gwella'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y maes gofal iechyd a chymdeithasol?

Y prif gwestiwn yw'r un am effeithiolrwydd therapi drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, gan fod prinder ymchwil yn y maes sydd wedi ei seilio ar niferoedd.

Mae'r ymchwil hefyd yn dangos nad yw cofnod o iaith gyntaf unigolion yn cael ei nodi'n gyson ar draws Cymru ac mae hynny'n peri anhawster wrth gynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer unigolion sydd yn siarad Cymraeg.

Y bwriad yw cyhoeddi peth o ffrwyth yr ymchwil o fewn y misoedd nesaf ac mae Dylan eisoes wedi trafod ei waith ymchwil gyda'r Llywodraeth, trwy'r Grŵp Llywio i Ddatblygu Fframwaith Strategol i'r Gymraeg o fewn y Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol.

Mae hefyd wedi trafod gyda nifer o fudiadau iechyd a gofal cymdeithasol sydd yn ystyried cryfhau eu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Gwarchodwch yr iaith, meddai pennaeth y gyfraith




Mae pennaeth y system gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr wedi annog pobl Cymru i warchod yr iaith Gymraeg.

Roedd yr Arglwydd Brif Ustus Igor Judge yn Abertawe i agor canolfan ymchwil newydd bwysig yn y Brifysgol – Sefydliad Hywel Dda.

A hithau wedi ei henwi ar ôl y brenin sy'n cael y clod am gasglu'r cyfreithiau Cymreig ynghyd yn y ddegfed ganrif, fe fydd y ganolfan yn arbenigo ar astudio ac ymchwilio i hanes a thraddodiad y gyfraith yng Nghymru ac i'r gyfundrefn gyfreithiol Gymreig fel y mae heddiw.

Yn ôl yr Athro Gwynedd Parry o Ysgol y Gyfraith ym Mhrifysgol Abertawe, mae'r ganolfan newydd yn ymateb i ddatganoli a'i effaith ar fyd y gyfraith – y bwriad, meddai, fydd cyfrannu at ddatblygiad Cymru Gyfreithiol trwy ymchwil ac ysgolheictod o safon rhyngwladol.

Fe ddywedodd yr Arglwydd Brif Ustus Judge bod yr iaith yn "dreftadaeth werthfawr" sydd wedi goroesi tros y canrifoedd oherwydd fod ychydig bobol wedi sefyll trosti.

"Yma yng Nghymru," meddai, "gan siarad yn swydd Arglwydd Brif Ustus Cymru, alla' i ddim ond eich annog i warchod eich iaith. Gwarchodwch hi'n dda."

# Glew – arwr newydd yr iaith

Mae Academi Hywel Teifi yn mynd â'r Gymraeg i dir newydd gyda gêmau iaith rhyngweithiol i helpu siaradwyr Cymraeg a dysgwyr o bob oed i ddysgu a mwynhau defnyddio'r iaith.

Mewn cydweithrediad â chwmni Turnip Starfish o Gaerdydd, mae'r Academi wedi dyfeisio a chreu dwy gêm iaith gydag arwr animeiddiedig newydd sef Glew y Ddraig.

'Gobaith arweinwyr y prosiect yw y bydd pobl yn lawrlwytho'r gêmau i'w cyfrifiaduron a'u gwefannau personol ac y bydd tiwtoriaid iaith yn eu defnyddio mewn dosbarthiadau Cymraeg er mwyn dysgu trwy ddiddanwch.'

Gobaith arweinwyr y prosiect yw y bydd y pobl o bob math yn lawrlwytho'r gêmau i'w defnyddio'n offeryn addysgu cyfrifiaduron ac y bydd tiwtoriaid iaith yn eu defnyddio mewn dosbarthiadau Cymraeg er mwyn dysgu trwy ddiddanwch.

Meddai Dr Gwenno Ffrancon, Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi: "Mae'r Academi'n ffyddiog y bydd y gêmau hyn yn fodd o gefnogi dysgwyr y tu allan i'w dosbarthiadau, ac yn fodd o atgoffa pawb o'r ffurfiau Cymraeg cywir, a hynny trwy ddull cofiadwy iawn!

"Er nad oedd Hywel Teifi'n or-hoff o'r cyfryngau newydd, dw i'n siŵr y byddai'n cefnogi ein hymdrechion i gynnal safonau ac annog defnydd o'r iaith trwy amrywiol gyfryngau. Gwarchodwr yr iaith Gymraeg yw Glew y Ddraig – yn union fel Hywel Teifi."




# Taclo costau cyfieithu – gwaith myfyriwr ymchwil



Mae myfyriwr ymchwil yn Abertawe'n gweithio ar syniad a allai arbed arian ac amser i gyfieithwyr yng Nghymru.

Mae Gareth Watkins yn datblygu ffordd o fesur pa mor effeithiol yw cof cyfieithu – technoleg sy'n cofio beth y mae cyfieithydd wedi ei sgrifennu o'r blaen.

"O ganlyniad," meddai'r myfyriwr PhD, "does dim rhaid i gyfieithydd ail gyfieithu'r un frawddeg neu gymal bob tro.

"Mae cof cyfieithu yn cynnig brawddegau sydd eisoes wedi eu cyfieithu gan y cyfieithydd ei hun, a brawddegau tebyg. Felly does dim angen cyfieithu o'r newydd bob tro."

Mae Gareth yn gweithio ar 'Fetrig' a fydd yn edrych pa mor effeithiol yw'r gwahanol systemau ac yn cymharu'r sefyllfa yng Nghymru â'r hyn sy'n digwydd yn rhyngwladol.

"Mae'r ymchwil yn arwyddocaol iawn heddiw, wrth i bobl godi cwestiynau am gost cyfieithu yng Nghymru," meddai Gareth. "Bydd modd cynnig ffyrdd o wella dulliau gweithredu i'r naill a'r llall.

"Mae hefyd yn bwysig bod ein cyfieithwyr yn deall manteision gwahanol dechnolegau ac yn gallu mesur pa mor effeithiol ydyn nhw mewn gwirionedd."

Rhan o'r gwaith oedd cynnal arolwg i fesur pa ddefnydd y mae cyfieithwyr Cymraeg yn ei wneud o'r dechnoleg ac fe fydd yn cynnal ail arolwg cyn hir.

Mae'r gwaith wedi mynd ag ef i ganolfan gyfieithu'r Undeb Ewropeaidd yn Luxembourg ac i roi papurau mewn cynadleddau yn Abertawe, Bangor a Barcelona.

# Pam ydyn ni'n Trydar yn Gymraeg?

## Ymchwil arloesol yn helpu strategaeth iaith

Mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n hollol naturiol ar y wefan rwydweithio cymdeithasol, Twitter, yn ôl ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe.

Ac mae gwaith arloesol Dr Rhys Jones o Academi Hywel Teifi yn chwarae rhan flaenllaw wrth i Lywodraeth Cymru lunio ei strategaeth ar gyfer dyfodol yr iaith.

Mae ef yn arwain tîm o ddau ymchwilydd arall – un o Brifysgol Morgannwg a'r llall o Brifysgol Indiana Bloomington yn yr Unol Daleithiau – gan gynnal arolwg eang o drydarwyr Cymraeg.

Yn hytrach na defnyddio'r iaith er mwyn gwneud pwynt bwriadol, mae'r ymchwil yn dangos bod y rhan fwya' o ddefnyddwyr Cymraeg Twitter yn gwneud hynny am yr un rhesymau â phawb arall.

"Dim ond lleiafrif oedd yn dweud eu bod nhw'n defnyddio Cymraeg ar Twitter oherwydd eu bod nhw'n teimlo y dylai'r iaith Gymraeg gael ei defnyddio gan y cyfryngau newydd," meddai Rhys Jones.

"Roedd y mwyafrif yn sôn am y rhesymau arferol am ddefnyddio'r safle, fel sgwrsio â ffrindiau, dal i fyny â newyddion, a dilyn hynt a helynt pobl enwog."

"Mae hynny'n galonogol iawn oherwydd mae'r iaith yn cael ei defnyddio'n gwbl naturiol ar rwydwaith cymdeithasol," meddai.

Cymrawd Dysgu sydd wedi cael ei benodi gyda chefnogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw Rhys Jones, a'i arbenigedd yw'r Gymraeg yn y cyfryngau newydd.

Mae'n gobeithio cyhoeddi canlyniadau'r ymchwil o fewn y flwyddyn ond mae'r canlyniadau cyntaf eisoes wedi eu defnyddio'n dystiolaeth ar gyfer drafft newydd o Strategaeth yr Iaith Gymraeg gan Lywodraeth Cymru.



# Ben yn helpu i fynd am record byd gyda char syfrdanol



# Codi hwyl yn y GwyddonLe

Mae'r Brifysgol a'r Urdd yn cydweithio eto er mwyn darparu gweithgareddau gwyddoniaeth ar Faes Eisteddfod yr Urdd.

Mae'r GwyddonLe yn babell sy'n fwrlwm o weithgareddau gwyddonol o bob math ac yn boblogaidd iawn ers ei chyflwyno gyntaf yn 2010.

Eleni yn Eisteddfod Abertawe a'r Fro, roedd nifer o gwmnïau a chyrff wedi darparu arddangosfeydd amrywiol ac unigryw ochr yn ochr â rhai o ddarlithwyr ac ymchwilwyr Prifysgol Abertawe.

Yn eu plith, roedd Tata Steel, Techniquest, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a Cadwch Gymru'n Daclus.

"Mewn awr aeth cant o blant drwy'r babell," meddai Kate Evans, darlithydd ym Mhrifysgol Abertawe. "Y nod ydi dod â gwyddoniaeth yn fyw i bobl ifanc - ac i rieni a theidiau a neiniau hefyd!"

Roedd yr arddangosfeydd a'r gweithdai'n cynnwys dysgu mwy am gar a all deithio 1,000 milltir yr awr, syllu ar ffosiliau neu gyffwrdd â rhai o greaduriaid y môr.

Fe eglurodd yr Is-ganghellor, yr Athro Richard B Davies, pam ei fod mor falch o weld Prifysgol Abertawe yn cydweithio gyda'r Urdd yn y maes:

"Os yw prifysgolion am adeiladu'n effeithiol ar lwyddiant ysgolion cyfrwng Cymraeg mae'n hanfodol bod y Gymraeg nid yn unig yn cael ei gweld fel iaith y celfyddydau a diwylliant, ond hefyd fel iaith gwyddoniaeth, ymchwil a menter.

"Drwy ddod â gwyddoniaeth yn fyw mewn ffordd hwyliog a rhyngweithiol, ein gobaith yw y bydd gweithgareddau'r GwyddonLe'n sbarduno meddyliau'r ymwelwyr ifanc i ddilyn gyrfaoedd yn y meysydd allweddol hyn."

Mae'r gwaith wedi dechrau eisoes ar gyfer y GwyddonLe yn Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012. Dewch draw i brofi'r cyfoeth o brofiadau gwyddonol fydd ar gael!





# Pwerdai'r

## Gwyddonwyr Cymraeg yn rhan o gynllun arloesol

Mae gwyddonwyr Cymraeg eu hiaith yn rhan o dîm a allai drawsnewid adeiladau'r dyfodol – a helpu i achub yr hinsawdd.

Mae Canolfan Arloesi a Gwybodaeth newydd SPECIFIC ym Mhrifysgol Abertawe'n gweithio gyda chwmni dur Tata o Bort Talbot i greu deunydd adeiladu newydd a fydd yn troi adeiladau'n orsafoedd pŵer bychain.

Mae Dr Trystan Watson a Dr Geraint Williams yn ddau aelod o'r tîm o arbenigwyr sy'n datblygu'r deunyddiau dur a gwydr a fydd yn cael eu rhoi ar wyneb waliau a thoeon ac a fydd yn cynhyrchu, cadw a darparu ynni.

Meddai Trystan Watson, "Mae'r ymchwil yn y ganolfan yn gyfle gwych i arloesi gyda thoeon a waliau adeiladau. Rydym am iddynt wneud mwy na'n hamddiffyn rhag y gwynt a'r glaw. Mae'n rhaid i'r dechnoleg rydym yn ei ddatblygu, megis celloedd ffotofoltäig haen-denau hyblyg, fod yn addas i'w gweithgynhyrchu ar raddfa fawr."

Y nod uchelgeisiol yw cynhyrchu un rhan o dair o holl ynni adnewyddadwy y Deyrnas Unedig



"Syfrdanol!" Dyna air Dr Ben Evans i ddisgrifio'r prosiect ymchwil y mae'n rhan ohono – i adeiladu'r car cyflymaf yn y byd erioed.

Ers tair blynedd, mae tîm ym Mhrifysgol Abertawe'n gweithio ar y car siwpersonic, BLOODHOUND, gyda'r nod o godi record cyflymder ar dir y byd i 1,000 o filltiroedd yr awr yn 2012.

Mae Ben, sy'n dysgu Cymraeg, eisoes wedi teithio i sawl rhan o'r byd gyda'r prosiect ac mae'n gobeithio y bydd y car yn tanio dychymyg darpar-beirianwyr, yn arbennig yng Nghymru.

"BLOODHOUND yw un o'r sialensiau peirianneg mwyaf mewn hanes", meddai'r gwyddonydd ifanc sy'n arbenigo mewn Peirianneg Deinameg Hylifol Cyfrifiannol. "Mae bod yn rhan o'r prosiect yn gwireddu breuddwyd i fi."

Richard Noble, un o gyn-ddeiliaid y record a'r dyn y tu cefn i'r car Thrust yn yr 1980au, a ddechreuodd y syniad a'r gyrrwr fydd Andy Green, y gyrrwr cynta' i groesi trothwy cyflymder sŵn mewn car.

Ond mae gwyddonwyr o Abertawe wrth galon y gwaith o ddyfeisio'r car gan gydweithio gydag un brifysgol arall a nifer o gwmnïau masnachol. Meddai'r Athro Ken Morgan, arbenigwr mewn Aerodynameg Cyfrifiadurol ac aelod arall o'r prosiect, "Mae Prifysgol Abertawe yn hynod falch o fod wrth galon yr antur beirianneg hon. Rydym yn defnyddio prosiect BLOODHOUND i ysgogi, annog a chynorthwyo'r gwaith o ddatblygu cenhedlaeth newydd o beirianwyr all wynebu'r heriau sydd yn codi mewn byd carbon-isel sydd yn gynyddol gystadleuol."





I Ben, sy'n cydnabod ei fod wedi bod â chwilfrydedd erioed mewn deall sut mae pethau'n gweithio, mae'r prosiect yn un ofnadwy o gyffrous.

Ac mae'r uchelgais yn syfrdanol hefyd – nid dim ond torri'r record yw'r nod ond ei symud o 763 milltir yr awr i 1,000 milltir yr awr – naid o fwy na 30%.

# dyfodol – yn eich wal!

erbyn 2020 gan leihau'r carbon deuocsid sy'n cael ei ollwng i'r amgylchedd o 6 miliwn tunnell y flwyddyn.

Mae'r prosiect pum mlynedd sydd â'i gartref yn y Ganolfan Arloesi a Gwybodaeth ym Mae Baglan hefyd yn bartneriaeth gyda phrifysgolion Imperial College Llundain, Bath, Bangor, Caerdydd, Glyndŵr a Strathclyde a busnesau rhyngwladol fel BASF, Akzo Nobel, Beckers a Pilkington.

Mae Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth Cymru, Edwina Hart, eisoes wedi canmol y cynllun. "Mae ganddo botensial gwirioneddol i gynnig elw tymor hir i'r economi ac mae'n gosod Cymru ar y blaen gyda'r datblygiadau cyffrous hyn", meddai.





## Codi STEM tros yr iaith

Mae Prifysgol Abertawe'n arwain wrth gryfhau lle'r Gymraeg mewn gwyddoniaeth a thechnoleg.

Gyda thraddodiad cryf o ddysgu'r pynciau STEM – Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg – mae'r Brifysgol yn ymateb i'r galw cynyddol am ddysgu trwy'r Gymraeg.

Gyda chefnogaeth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, mae yna ychwanegiadau newydd pwysig at yr hyn oedd ar gael ac mae myfyrwyr yn manteisio'n llwyr ar bob darpariaeth:

**Mathemateg**

– cyfleon am diwtorialau mewn Calcwlws, Dadansoddi a Thebygolrwydd a phrosiect ymchwil lefel 3 trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae llawer o adnoddau addysgu Mathemateg wedi'u cyfieithu hefyd.

**Bio-wyddorau**

– tiwtorialau cyfrwng Cymraeg ar gael. Mae myfyrwyr blwyddyn 1 Bioleg, Sŵoleg a Bioleg y Môr yn dod at ei gilydd i ddysgu sut i ysgrifennu'n wyddonol, i fagu sgiliau gyrfaol gwyddonol, creu a defnyddio ffynonellau gwyddonol a dysgu sut i greu mapiau cysyniadol.

**Peirianneg**

– mae tiwtorialau a seminarau Cymraeg ar gael mewn Mathemateg i Beirianwyr a Sgiliau Allweddol mewn Peirianneg. Ceir cyfleon hefyd i gwblhau prosiect ymchwil lefel 3 trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Meddalwedd sy'n helpu tîm rygbi Cymru

Roedd gan arbenigwyr o Brifysgol Abertawe ran yn llwyddiant Tîm Rygbi Cymru yng Nghwpan y Byd yn Seland Newydd.

Nhw sydd wedi dyfeisio meddalwedd arloesol i helpu'r hyfforddwyr ddadansoddi perfformiad y chwaraewyr yn y fan a'r lle ar ôl derbyn cyllid gan un o gynlluniau Llywodraeth Cymru, Arbenigedd Academaidd ar gyfer Busnes.

Fisoedd cyn y Cwpan, roedd tri ymchwilydd o Goleg Peirianneg a Chyfrifiadureg y Brifysgol wedi bod yn gweithio gyda'r Undeb Rygbi ar adnodd o'r enw MatchPad.

Mae hwn yn creu llinell amser o brif ddigwyddiadau'r gêm ac yn rhoi'r cyfle i'r hyfforddwyr edrych ar fideo ohonyn nhw, ar y pryd.

"Mae eiconau ar gael ar gyfer sgrym, llinell, trosedd, ryc ac yn y blaen," meddai Dr Iwan Griffiths, darlithydd yn yr Adran Gwyddorau Chwaraeon ac arweinydd y prosiect.

"Trwy wasgu'r eiconau, mae'r MatchPad yn gallu chwarae fideo o'r hyn sydd wedi digwydd. Os yw Cymru wedi colli sgrym, er enghraifft, mae'r hyfforddwyr yn gallu gweld beth aeth o'i le."

Mae'r rhaglen yn cael ei defnyddio ar yr Apple iPad ac felly mae'n bosib ei defnyddio yn yr eisteddle, ar ymyl y cae, yn yr ystafell newid, neu, fel y digwyddodd yng Nghwpan y Byd, ym mocs yr hyfforddwyr uwchben y cae.

Roedd Iwan wrth ei fodd pan oedd yn gwylio un o'r gemau ar y teledu a gweld Pennaeth Dadansoddi Perfformiad yr Undeb, Rhys Long, yn defnyddio MatchPad Abertawe!

Yn ôl Rhys Long ei hun, mae'n "arf effeithiol iawn o ran edrych ar y prif ddigwyddiadau yn ystod gêm a sut maen nhw'n cysylltu â'i gilydd".

Y gobaith yw datblygu'r MatchPad i fod yn gynnyrch masnachol ar gyfer rygbi a chwaraeon tîm eraill, o bêl-droed i hoci iâ.

# Dwy iaith, dau fyd, dau gyfrwng



Mae'r Dr Fflur Dafydd yn enwog am ei chaneuon pop ac am ei nofelau – ond mae hefyd yn ddarlithydd yn Abertawe ac wrth ei bodd yn gweld myfyrwyr yn magu hyder.

Un enghraifft yw myfyrwraig sydd newydd gael cytundeb dwy nofel gyda chwmni cyhoeddi Bloomsbury.

"Dw i wrth fy modd yn gweld myfyrwyr yn datblygu eu gwaith wrth ddarganfod eu llais eu hunain," meddai Fflur sy'n ddarlithydd Ysgrifennu Creadigol yn Adran Saesneg y Brifysgol.

"Mae'n wych gweld myfyrwyr yn bownsio syniadau oddi ar ei gilydd. Mae'r cwrs yn rhoi cyfle iddyn nhw fod yng nghwmni awduron profiadol, ac i fod yn rhan o gymuned ddeallusol, greadigol, sy'n hybu eu crefft a'u syniadau."

Er ei bod yn yr Adran Saesneg, mae Fflur yn rhan o'r cyffro sydd o amgylch Academi Hywel Teifi.

Mae'n falch o weld darlithwyr Cymraeg eu hiaith ar draws y Brifysgol yn gweithio gyda'i gilydd i gynnig cyfleoedd newydd i fyfyrwyr.

"Mae'n gyffrous," meddai. "Mae'r darlithwyr yn Abertawe'n hyblyg iawn ac eisoes yn edrych ar pa gyfleoedd newydd y gallwn ni eu cynnig.

"Mae nifer o Gymry Cymraeg yn dewis gwneud yr MA Ysgrifennu Creadigol gyda ni yn yr Adran Saesneg, ac mae croeso iddyn nhw gael eu tiwtorialau i gyd trwy gyfrwng y Gymraeg.

"Mae'n braf iawn hefyd cael y cyfle i gyfrannu at waith yr Academi trwy gynnal seminarau a digwyddiadau."

Mae'n defnyddio'r ddwy iaith yn ei gyrfa ei hun, gan addasu ei gwaith Cymraeg i'r Saesneg, er enghraifft, ac mae ei nofel newydd Saesneg, *The White Trail*, yn addasiad cyfoes o stori Culhwch ac Olwen.

Mae'n cael y gorau o ddau fyd mewn ffordd arall hefyd – cyn hir, fe fydd albwm newydd yn y siopau i ddilyn llwyddiant Byd Bach.

# Merch y lludw a'r mwd

Mae darlithydd ifanc Cymraeg sydd â diddordeb mawr mewn lludw a mwd newydd ennill gwobr fawr ryngwladol.

Mae Gwobr Philip Leverhulme, sydd werth £70,000, yn cael ei rhoi i unigolion o dan 36 oed sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol yn eu maes.

Fe gafodd Dr Siwan Davies yr anrhydedd am arwain ymchwil arloesol i effeithiau newid hinsawdd sydyn. Mae eisoes wedi derbyn grant o fwy na £1 miliwn ar gyfer y gwaith.

"Mae saith ohonon ni i gyd yn y tîm yn Abertawe," meddai'r Darllenydd Mewn Daearyddiaeth. "Rydyn ni'n gobeithio darganfod mwy am newidiadau hinsawdd sydyn yn y gorffennol pell - rhwng 20,000 ac 80,000 o flynyddoedd yn ôl."

Mae'n golygu astudio deunyddiau y maen nhw wedi eu casglu o'r gogledd pell - lludw o'r Ynys Las a llaid o ogledd Cefnfor yr Iwerydd.

Y bwriad yw ceisio deall beth ddigwyddodd a, gan fod newid hinsawdd yn dilyn patrymau pendant, deall pam. Fe allai hynny fod yn werthfawr iawn wrth ystyried datblygiadau heddiw.

"Mae'r hinsawdd yn cynhesu i ddechrau, yn oeri'n raddol, yn oeri'n sydyn ac yna yn cynhesu unwaith eto," meddai. "Y gobaith yw y byddwn ni'n dod i ddeall beth sy'n digwydd oddi fewn y patrwm yna, a deall beth sy'n sbarduno'r hinsawdd i newid mor gyflym."



## Siwan wedi'i swyno

Un o Drefdraeth, Sir Benfro, yw Siwan ac, yn y chweched dosbarth yn Ysgol y Preseli, Crymych, fe gafodd ei swyno'n llwyr gan Ddaearyddiaeth ac mae'r pwnc yn dal i'w chyffroi.

"Fe ges i fy magu mewn ardal brydferth, ro'n i am wybod mwy a cheisio deall y prosesau sy'n siapio'r byd sydd o'n cwmpas," meddai.

Ar ôl gwneud gradd yn Rhydychen ac yna gyrsiau Meistr a PhD yng Ngholeg Royal Holloway yn Llundain, fe aeth yn ymchwilydd i Brifysgolion Stockholm a Copenhagen, cyn dychwelyd i Gymru yn 2004, i'w swydd bresennol ym Mhrifysgol Abertawe.

"Dw i wrth fy modd yma," meddai. "Dw i'n mwynhau'r gwaith ymchwil a'r gwaith dysgu."

## Y gorau o ddau fyd

**Mae Siwan Davies yn sicr fod dilyn cwrs yn ddwyieithog yn fanteisiol iawn ...**


"Rydyn ni'n cynnig profiadau gwych i'r myfyrwyr yn y ddwy iaith, a dw i'n credu fod y dwyieithrwydd hynny'n bwysig iawn.

"Maen nhw'n cael cyfle i drin a thrafod yn y ddwy iaith, a dw i'n meddwl fod hynny'n fantais fawr iddyn nhw. Mae'n sgil sy'n agor drysau. Mae asiantaethau amgylcheddol yn chwilio am y sgil arbennig yma.

"Mae nifer o'n myfyrwyr wedi bod ar leoliadau profiad gwaith gydag asiantaethau fel Asiantaeth yr Amgylchedd, y Comisiwn Coedwigaeth a'r Cyngor Cefn Gwlad ac roedd eu gallu i siarad Cymraeg yn fanteisiol iawn."

Mae'r cyfle ar gael hyd yn oed i rai sydd heb ddilyn cwrs trwy'r Gymraeg yn yr ysgol.

"Dyw hynny ddim yn rhwystr i ddilyn cwrs coleg trwy gyfrwng y Gymraeg," meddai Siwan. "Mae'r termau'n wahanol ond mae help ar gael mewn grwpiau dysgu bach. Fe fyddwch wedyn yn cael y gorau o ddau fyd."



# Hywel, Saunders, drama, cerddi ... prysurdeb Tudur Hallam

Mynd oddi wrth ei wobr at lawer o waith a wnaeth y Prifardd Tudur Hallam, sydd hefyd yn Athro'r Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe.

Fe fydd yr awdl a enillodd y Gadair Genedlaethol iddo yn 2010 yn cael ei chynnwys yn ei gasgliad cyntaf o gerddi, gyda nawdd Llenyddiaeth Cymru.



Roedd yr awdl honno'n deyrnged i'w ragflaenydd yr Athro Hywel Teifi Edwards.

Mae hefyd yn gweithio ar gyfrol am un arall o gyn-ddarlithwyr Abertawe, Saunders Lewis.

Yn sgil ennill Ysgoloriaeth Goffa Saunders Lewis, mae'n paratoi astudiaeth o waith y dramodydd ac yn traddodi ei ddarlith agoriadol yn y maes ym mis Mai 2012: 'Saunders Lewis, ein Theatr heddiw a "Parler, c'est agir"'.


Ar yr un pryd, mae'r Athro Cymraeg yn cynnal cwrs ôl-radd newydd, sef MA Ymchwil yn y Gymraeg, ac yn falch fod tair myfyrwraig yn dilyn y cynllun ac yn ysgrifennu ym maes y theatr o dan ei gyfarwyddyd.

"Mae'n wych gweld y galw am y radd newydd hon ac i mi'n bersonol pleser pur yw dysgu myfyrwyr ymchwil ym maes y ddrama", meddai.

## Arwain gyda Byd Copr Cymru

Prifysgol Abertawe sydd wedi arwain y gwaith o wneud chwarae teg â'r diwydiant mawr byd-eang cyntaf – y diwydiant copr yng Nghwm Tawe.

Fe gafodd y Brifysgol a'i phartneriaid, sy'n cynnwys Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Cyngor Dinas a Sir Abertawe a Chomisiwn Henebion Brenhinol Cymru, grant ymchwil gan yr ESRC o £95,000 i archwilio hanes y diwydiant a chodi ymwybyddiaeth o gyfoeth ei hanes.



O dan arweiniad yr Athro Huw Bowen o'r Adran Hanes a Chlasuron, mae dwsinau o ddigwyddiadau, cynadleddau ac arddangosfeydd wedi eu trefnu ac amryw o'r rheiny'n defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf.

Meddai'r Athro Bowen, "Rydym yn dueddol o feddwl fod hanes Cymru wedi'i sgwennu mewn llwch glo a haearn a dur. Ond, mewn gwirionedd, copr sydd yn gorwedd wrth wraidd datblygiad Cymru fel cenedl ddiwydiannol."

Mae gwefan hefyd wedi ei chreu i gyfleu hanes y diwydiant a'r prosiect, sy'n dod i ben yn swyddogol ddiwedd Tachwedd 2011.

Ers dechrau ym mis Medi 2010, mae'r gwaith ymchwil wedi datgelu gwybodaeth newydd am y diwydiant a oedd yn ganolog yn nhwf dinas Abertawe ac a gofleidiodd y byd, trwy fasnach ryngwladol a hyd yn oed gaethwasaeth.

# Daniel yn mynd am Harvard

Mae Dr Daniel G. Williams ar ei ffordd i un o brifysgolion enwoca'r byd i barhau gyda gwaith ymchwil mewn maes sydd, fel ef ei hun, yn croesi cyfandiroedd.

Ac yntau'n Gyfarwyddwr Canolfan Astudiaethau Cymreig Richard Burton yn y Brifysgol yn Abertawe, mae wedi ennill Gwobr Astudio Dramor gan Ymddiriedolaeth Leverhulme.

Mae hynny'n golygu ei fod ef a'i deulu'n paratoi i dreulio chwe mis ym Mhrifysgol Harvard yn yr Unol Daleithiau.



Yno, fe fydd Daniel yn parhau gyda'i waith ymchwil i'r berthynas rhwng y Cymry a'r Affro-Americaniaid yn yr Unol Daleithiau.

Mae eisoes wedi sgrifennu llyfr Saesneg ar y pwnc ac fydd hwnnw'n cael ei gyhoeddi'r flwyddyn nesaf o dan y teitl, *Transatlantic Exchange - African Americans and the Welsh*.

"Dw i'n edrych ymlaen yn fawr at y cyfnod hwn yn Harvard," meddai Daniel, sy'n dod o Aberystwyth yn wreiddiol ond sy'n byw erbyn hyn yn yr Alltwen, Cwm Tawe, gyda'i wraig Sioned a'u plant, Lowri, 9, a Dewi, 6.

"Byddaf yn pontio dwy adran yn y Brifysgol, sef yr Adran Ieithoedd a Llenyddiaethau Celtaidd a'r Adran Astudiaethau Affro-Americanaidd," meddai'r arbenigwr ar lenyddiaeth a hanes diwylliannol, sydd hefyd yn gerddor jazz.

Mae Daniel eisoes yn gyfarwydd â'r ardal a Phrifysgol Harvard gan ei fod wedi astudio yno ar gyfer ei radd MA.



# Llyfryn Cymraeg yn gwella gofal

Mae llyfr poced newydd o Abertawe'n gwella gallu myfyrwyr iechyd i drin cleifion Cymraeg eu hiaith.

Ac yntau wedi'i greu ar gyfer myfyrwyr Coleg y Gwyddorau Dynol ac Iechyd, mae eisoes yn cael derbyniad gwresog ganddyn nhw a'u cleifion.

Mae'r llyfryn, *Gofalu Trwy'r Gymraeg*, yn cynnwys geiriau ac ymadroddion i helpu myfyrwyr, sydd yn brin o hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg, i roi gofal i'w cleifion trwy gyfrwng yr iaith.

Mae'n cyflwyno termau sylfaenol i'w defnyddio wrth holi sut mae rhywun neu wrth helpu gyda bwyta ac yfed, yn ogystal â thermau ar gyfer gwasanaethau mwy penodol fel cael pelydr-X.

Cafodd y llyfryn ei sgrifennu gan Angharad Jones, tiwtor y Gwyddorau Biofeddygol, gyda chymorth Pwyllgor Defnydd y Gymraeg yn y Coleg Gwyddorau Dynol ac Iechyd. Mae hi wedi ei phlesio'n fawr gan ymateb y myfyrwyr a'r cleifion.

"Mae'r myfyrwyr sydd wedi bod allan ar leoliad yn dweud bod y llyfryn yn rhoi hyder iddyn nhw, ac maen nhw'n sylwi fod y cleifion yn amlwg yn teimlo'n hapusach ac yn fwy cyffyrddus," meddai.

"Mae hyn yn arbennig o wir am blant a'r henoed, yn enwedig y rhai sy'n dioddef o'r clefyd Alzheimer. Mae'r myfyrwyr yn dweud bod defnyddio'r Gymraeg yn gwneud gwahaniaeth mawr."

Mae'r myfyrwyr hefyd yn gallu cael gwersi Cymraeg gan staff y Coleg, gyda chyfle am gyfweliad trwy'r Gymraeg, tiwtor sy'n siarad Cymraeg a gwaith cwrs trwy gyfrwng yr iaith.

"Nod y Coleg a'r Brifysgol yw paratoi'r myfyrwyr i gynnig gwasanaeth ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion y cyhoedd. Mae cynnig gwasanaeth dwyieithog yn rhan bwysig o hynny," meddai Angharad.



# Profiad unwaith mewn oes

**Graddiodd Hannah Edmunds o Brifysgol Abertawe yn 2011 gyda gradd mewn Astudiaethau Plentyndod Cynnar. Yn ystod ei chwrs, fe gafodd brofiad arbennig iawn ...**

Yn ystod Haf 2010 treuliais dri mis yn gweithio fel gwir-foddolwraig yn Ghana, Affrica. Roeddwn i eisiau gwneud rhywfaint o wahaniaeth i rywun sy'n byw bywyd lot llai breintiedig na fi, i fwynhau'r profiad ac, yn bwysicach, i brofi i fi fy hunan fy mod i'n gallu gweithio mewn amgylchiadau meddygol anodd.



Yn ystod fy nghyfnod yn Ghana treuliais lawer o amser yn gweithio gyda meddyg mewn ysbyty ac allan yn y gymuned. Fy hoff agwedd ar y gwaith oedd yr adran blant. Er bod llawer o blant yn marw bob dydd, roedd gweld beth oedd meddyginiaeth yn gallu ei wneud yn anhygoel.

Allan yn y gymuned, treuliais fy amser yn glanhau clwyfau ac yn ceisio dysgu pentrefwyr am faterion fel atal cenhedlu a HIV. Roedd gweithio gyda chymunedau'n rhoi llawer o foddhad ond yn drist iawn weithiau. Ro'n i'n teimlo fy mod yn gwneud ychydig o wahaniaeth ond fe hoffwn wneud lot mwy i wella ansawdd bywyd y bobl.

Yn fy amser hamdden, ro'n i'n gweithio gyda phlant mewn cartref plant amddifad a theithio gyda'r gwirfoddolwyr eraill. Roedd gweithio gyda'r plant yn wych! Er nad oedd teulu gan y plant na dim lot o ddim byd arall chwaith, roedd y plant yn hapus ac yn fywiog.

Es i â chwpwl o beli rygbi gyda fi i Ghana a dysgais i'r plant i chwarae rygbi. Dangoson nhw i fi sut i chwarae gemau Ghana.

Roedden ni'n teithio llawer hefyd. Doeddech chi byth yn gwybod beth fyddai'n digwydd nesaf. Treuliais i chwe awr yn ceisio dal cywion ieir i fynd ar un daith! Roedd bob tref yn wahanol a mwynheais i brofi'r gwahaniaeth mewn diwylliant a gweld rhai o'r golygfeydd hardd.

Er i fi gael rhai profiadau annymunol fydden i ddim yn newid y profiad am unrhyw bris. Ces i amser gwych yn teithio ac yn gweithio.

Cwrddais â llawer o bobl gwirioneddol ysbrydoledig ac mae'r profiad wedi cadarnhau fy nyheadau i fod yn nyrs plant. Dw i'n teimlo bod y profiad wedi newid fy safbwynt ar fywyd - profiad unwaith mewn oes.

# Dwylo dros y môr

Mae gan Brifysgol Abertawe nifer sylweddol o bartneriaethau rhyngwladol ac mae hynny bellach yn digwydd trwy'r Gymraeg, gyda diwylliannau tebyg.

Un enghraifft yw partneriaeth gyda Phrifysgol Northeastern State yn Oklahoma yn yr Unol Daleithiau.

"Mae nifer uchel o Americanwyr brodorol yn mynd yno, yn bennaf o'r llwyth Cherokee," meddai Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi, Gwenno Ffrancon.

"Mae eu myfyrwyr nhw a'n myfyrwyr ni'n wynebu profiadau tebyg o ran gwarchod eu diwylliant a'u hiaith.

"Maen nhw'n bell ar y blaen i ni o ran defnyddio eu hiaith ar y cyfryngau newydd - fel Twitter a Facebook – ac mae gwersi i ni i'w dysgu.

"Mae creu cyswllt â Phrifysgol Northeastern State yn rhan o'n cenhadaeth i gynnig profiadau rhyngwladol mewn cyd-destun Cymraeg a Chymreig."

'Bydd ein myfyrwyr, o sawl disgyblaeth, yn cael dysgu mwy am hunaniaeth, iaith a diwylliant y Cherokee ac yn cael profi eu traddodiadau a'u seremonïau, gan gynnwys mynychu powwow a deall eu systemau llywodraethu a chyfraith cyfredol.'



# Vancouver a'r Gymraeg!

Mae gwneud Daearyddiaeth Ffisegol trwy gyfrwng y Gymraeg wedi mynd â Gwydion Jones yr holl ffordd i Vancouver.

Pan ddaeth yn amser iddo feddwl am drip maes tramor, roedd yn gallu dewis rhwng y ddinas yng Nghanada, Efrog Newydd, Awstria neu Mallorca.

Mae'r cwrs, meddai, wedi ei gynorthwyo i ddysgu sut mae'r byd yn gweithio, yn ogystal â rhoi'r cyfle iddo astudio pynciau amserol fel yr hinsawdd a thywydd, llosgfynyddoedd a daeargrynfeydd a dysgu sut i ddefnyddio'r systemau cyfrifiadurol diweddara'.

Ac yntau ar ei drydedd flwyddyn, roedd Gwydion hefyd yn falch o'r cyfle i allu astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

"Fe wnes i ddewis astudio trwy'r Gymraeg gan ei bod yn haws i fi ysgrifennu yn Gymraeg. Cymraeg yw fy iaith gyntaf ac ro'n i wedi gwneud y rhan fwyaf o fy ngwaith ysgol yn Gymraeg.

"Rwy'n teimlo'n fwy cyffyrddus yn defnyddio'r Gymraeg ac wedi gwneud ffrindiau da gyda'r bobl eraill sy'n astudio Daear trwy'r Gymraeg. Bydd e hefyd yn edrych yn dda ar y CV."

# Yi He'n synnu Prif Weinidog

Mae Yi He yn gobeithio creu hanes – trwy greu'r geiriadur Cymraeg Tsieiniëeg cyntaf erioed.

Mae'n bosib ei fod wedi creu hanes eisoes – y Tsieinïwr cyntaf yn y byd i ofyn cwestiwn Cymraeg yn gyhoeddus i Brif Weinidog Cymru.

Fe ddaeth hynny wrth i Carwyn Jones ymweld â Phrifysgol Abertawe i roi araith am gysylltiadau Cymru a'r byd.

Fe gododd Yi He ar ei draed a gofyn cwestiwn yn Gymraeg am gynlluniau'r Llywodraeth i hyrwyddo'r Gymraeg ar lefel rhyngwladol... "Dw i'n meddwl bod y Prif Weinidog wedi synnu bod person Tsieineaidd yn siarad Cymraeg ag e," meddai.

Mae Yi He'n gweithio i gwmni dur Tata ym Mhort Talbot, yn gwneud cwrs ymchwil ôl-radd ym Mhrifysgol Abertawe ac yn dysgu Cymraeg o dan adain Canolfan Cymraeg i Oedolion De-Orllewin Cymru, Academi Hywel Teifi.

Yn 2010, roedd Yi He yn cyfrannu at 'Wythnos Cymru' yn Chongqing, ei dref enedigol yn Tsieina.



"Dyma'r pumed tro i'r wythnos gael ei chynnal ac fe fues i'n helpu i dywys gwesteion o Gymru o amgylch yr ardal a'r digwyddiadau."

Mae hefyd wedi gwneud fideo yn yr iaith Fandarin i hyrwyddo Cymru yn Tsieina ac mae'n gobeithio y bydd ei "ymdrechion bach" yn helpu pobl y ddwy wlad i wybod a deall mwy am ei gilydd.

"Mae'n freuddwyd gen i," meddai, "i fod yn siaradwr Cymraeg rhugl ac i ysgrifennu'r geiriadur Cymraeg Tsieinëeg cyntaf."

**Myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr yn sgwrsio am eu hamser ym Mhrifysgol Abertawe.**

# Holi holi holi

## Troed yn y byd teledu




**Bridie Angharad Morris, cyn fyfyriwr Astudiaethau'r Cyfryngau sydd, ers graddio yn 2011, yn gweithio gyda chwmni ôl-gynhyrchu Gorilla yng Nghaerdydd.**

***Pam ddewisaist ti'r pwnc?***
Am fod gen i ddiddordeb yn y byd teledu.

***Pam Abertawe?***
Dyw e ddim yn rhy bell, na chwaith yn rhy agos i gartref, sef Pontypridd!

***Beth ydy dy hoff beth di am Abertawe?***
Mae'n gampws bach a chyfeillgar. Mae'r lleoliad yn wych ac mae'n cynnig popeth. O ran y Gymraeg a'r Cyfryngau, dw i mor falch fy mod i wedi dewis astudio yn yr iaith, a chwrdd â darlithwyr mor gefnogol.

***Beth yw dy swydd bresennol?***
Dw i'n gweithio ar y dderbynfa ac yn cyflawni tasgau fel aelod iau o'r cwmni, er mwyn paratoi fy hun at weithio fy ffordd i fyny.

***Sut wnaeth Abertawe dy baratoi di ar gyfer y byd gwaith?***
Trwy ddewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, mi dderbyniais i addysg gan ddarlithwyr gwych a roddodd gwell dealltwriaeth i mi o'r cyfryngau Cymraeg. O ganlyniad, fe fues i'n lwcus iawn i gael treulio cyfnodau o brofiad gwaith gyda chwmnïau cynhyrchu Cymraeg.

## Llyr a'r 'Micro Mouse'

**Yn wreiddiol o Landysul, Ceredigion, mae Llyr yn fyfyriwr ail flwyddyn yn astudio am radd MEng Peirianneg Drydanol ac Electronig.**

***Beth wyt ti'n mwynhau fwyaf am dy gwrs?***
Cael y cyfle i ddod i adnabod pobl wahanol o bob cyfandir a dw i'n dysgu rhywbeth newydd bob dydd. Ar hyn o bryd, mae 12 tîm ar fy nghwrs yn cystadlu'n galed yn erbyn ei gilydd i greu robot 'micro Mouse', sef peiriant sy'n gallu gwneud tasgau gwahanol fel mynd o amgylch ystafell gan osgoi rhwystrau gwahanol. Mae'n rhaid i ni ddefnyddio popeth yr ydyn i wedi'i ddysgu cyn belled er mwyn llwyddo!

***Wyt ti'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg o gwbl?***
Mae hawl gen i roi unrhyw waith neu asesiadau i mewn yn Gymraeg, ac mae cyfle i fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf dderbyn tiwtorialau Sgiliau Astudio a Mathemateg yn y Gymraeg. Mae cyfle hefyd i gwblhau prosiect blwyddyn olaf trwy'r Gymraeg.




***Beth yw dy hoff beth am astudio ym Mhrifysgol Abertawe?***
Cael byw mor agos at y traeth!

***Beth ydy dy gynlluniau di o ran gyrfa yn y dyfodol?***
Gorffen fy ngradd ac yna creu busnes yn ymwneud â'r byd electroneg.




## Tad-cu – y carcharor rhyfel!

**Mae Angela Evans o Dregaron ar ei thrydedd blwyddyn, yn astudio Hanes.**

***Pam wnest ti ddewis astudio Hanes?***
Fe wnes i fwynhau Hanes yn yr ysgol. Mae'n bwnc eang, felly mae llawer i'w ddysgu.

***Wyt ti'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg?***
Dwi wrthi'n sgrifennu fy nhraethawd hir yn Gymraeg. Cymraeg yw fy iaith gyntaf i felly rwy'n hapus iawn o gael y cyfle.

***Beth ydy pwnc dy draethawd?***
Gwersyll carcharorion rhyfel Eidalaidd yn Henllan, Ceredigion. Dw i'n sôn sut y gwnaeth y bobl leol dderbyn yr Eidalwyr i mewn i'r gymdeithas leol Gymraeg. Roedd fy nhad-cu yn un o'r carcharorion, ac fe wnaeth e a mam-gu setlo'r teulu yng Nghastellnewydd Emlyn ar ôl y Rhyfel.

***Pam wnest ti ddewis astudio yn Abertawe?***
Wnes i fwynhau'r diwrnod agored ac roedd cynnwys y cwrs Hanes yn ddiddorol iawn. Mae'r lleoliad yn bert iawn ac mae'r bywyd nos yn hwyliog. Fy hoff beth i am Abertawe yw'r ffrindiau newydd dw i wedi eu gwneud, a'r ffaith fod pawb mor gyfeillgar a chroesawgar. Mae'n lle hyfryd i fyw.

***Beth yw dy obeithion di am y dyfodol?***
Fy ngobaith yw bod yn gyfreithiwr nôl adre yng Ngheredigion.

## Cofio lle bendigedig

Siân Arfon oedd un o'r myfyrwyr cynta' i wneud cwrs Meddygaeth i Raddedigion yn Abertawe ac fe dalodd ar ei ganfed iddi.

Mae'r meddyg ifanc o Lanfaglan ger Caernarfon bellach yn Feddyg Teulu dan Hyfforddiant ym Mhenrhyn-deudraeth.

Fe ddaeth i Brifysgol Abertawe, gan ennill gradd MB BCh Meddygaeth yn 2008 ac roedd hi wrth ei bodd yno.

"Roedd y cwrs Meddygaeth yn wych!" meddai. "Roedd y syniad o fyw mor agos at y traeth, y Mwmbwls a Phenrhyn Gŵyr yn apelio'n fawr iawn hefyd. Mae'n lle bendigedig i fyw – roedd byw yn Abertawe fel myfyriwr yn llawer o hwyl, ro'n i'n drist iawn yn gadael!"

I unrhyw un sydd am ddilyn yn ôl ei thraed, mae'n dweud bod y gallu i siarad Cymraeg wedi bod yn fendith fawr a'i bod yn defnyddio'r iaith yn gyson yn ei gwaith bob dydd.



# Hoffi Coffi? Yn Gymraeg!


Llun: Chris Reynolds

Ffansio disgled o de neu goffi a sgwrs Gymraeg? Mae caffi newydd yng nghanol y campws ym Mhrifysgol Abertawe yn cynnig yr union beth, i siaradwyr iaith gyntaf a dysgwyr.

Mae Hoffi Coffi yn symbol o dwf y Gymraeg yn y Brifysgol ac yn lle delfrydol i gyfarfod â ffrindiau, i wneud ffrindiau newydd ac ymarfer yr iaith.

Mae Hoffi Coffi yng nghanol bwrlwm y campws yn y Brif Lyfrgell ac wrth ymyl Academi Hywel Teifi, ac, fel yr eglura Rwth Williams, Swyddog Polisi Iaith Gymraeg y Brifysgol, mae croeso arbennig yno rhwng 10.30 ac 11.00 bob bore.

"Mae bwrdd arbennig wedi ei neilltuo ar gyfer siaradwyr Cymraeg, ac mae'n cynnig cyfle ardderchog i ddysgwyr sgwrsio yn yr iaith," meddai.

Ar un wal o'r caffi mae rhan o'r awdl a ysgrifennodd Yr Athro Tudur Hallam yn deyrnged i Hywel Teifi ac a enillodd gadair yr Eisteddfod Genedlaethol.

Fe gafodd Hoffi Coffi ei agor gan Huw Edwards, y newyddiadurwr a'r darlledwr sy'n fab i Hywel Teifi: "Roedd fy nhad yn trysori'r Gymraeg fel cyfrwng naturiol iaith bob dydd. Rwy'n gwybod y byddai'n hoffi meddwl y bydd cannoedd o fyfyrwyr a staff y dod yma i drafod rygbi, gwleidyddiaeth a'r Brifysgol yn y Gymraeg."

## 'Wrth fy modd"

Un sy'n galw heibio'r caffi yn aml yw Hannah Sams, o Benrhiwgoch, Sir Gaerfyrddin, sy'n gwneud gradd ymchwil MA ar ddramâu Gwenlyn Parry.

"Dw i wrth fy modd yn ishte yma yn gweld y byd yn mynd heibio," meddai, "ac mi fydda i'n gwneud ychydig o fy ngwaith ymchwil yma hefyd."

Mae Hannah mwynhau'r cyfle i sgwrsio â myfyrwyr Cymraeg eraill, a dysgwyr. "Mae'n gyfle gwych iddyn nhw ddysgu Cymraeg mwy llafar ac i fagu hyder. Mae'n dangos fod y Gymraeg yn iaith fyw."

Graddiodd Hannah yn y Gymraeg yn Abertawe a'i gobaith yw aros yno: "Rwy'n mwynhau Abertawe! Mae yna rhyw gyffro yma nawr, a bwrlwm o ran y Gymraeg."

**Owain Harries, y Swyddog Materion Cymreig, yn rhoi deg rheswm tros astudio ym Mhrifysgol Abertawe – ac ambell air o gyngor hefyd.**




**1.** Manteisiwch ar y cyfle. Mae cyfoeth o bynciau astudio ar gael yma a chyfle i chi droi eich llaw at bynciau newydd.
**2.** Ymunwch â'r GymGym (Y Gymdeithas Gymraeg). Hon yw'r gymdeithas bwysicaf ar gyfer myfyrwyr Cymraeg yn unrhyw bwnc!
**3.** Ewch i'r traeth. Does yr un Brifysgol arall yn Ewrop sydd â thraeth mor agos - ffaith! Gwnewch y gorau o'r cyfle!
**4.** Mae yna gannoedd o gymdeithasau a thimau chwaraeon i ymuno â nhw. Neu fe allwch fagu profiad gyda *radio xtreme* neu bapur y myfyrwyr.
**5.** Ewch i'r Mwmbwls. Mae bwytai hufen iâ Joe's, Fecci's a Verdi's yn anghredadwy!
**6.** Stryd y Gwynt (Wind Street). Hoffi nosweithi allan? Ddim yn hoffi cerdded yn bell o un bar i un arall? Stryd y Gwynt yw'r lle i chi! Ewch lawr ar nos Fercher am noson dda, heb dorri'r banc!
**7.** Y Gweilch a'r Elyrch! Abertawe yw'r unig ddinas yng Nghymru sydd â thîm pêl-droed Uwch Gynghrair! Ewch i weld yr Elyrch yn taclo timau mawr fel Man U a Chelsea! Os 'ych chi'n hoffi rygbi, mae tocyn myfyrwyr i weld y Gweilch yn hynod o rad.
**8.** Marchnad fwyd anhygoel Abertawe – cocos, bara lawr, pice ar y maen a llawer mwy.
**9.** Mae Abertawe wedi'i dewis yn ddinas fwyaf cyfeillgar Cymru, a'r ail ym Mhrydain!
**10.** Teimlad o gymuned. Fe wnewch chi ffrindiau am oes!

## Ysgoloriaethau – cyfle am £3,000

Fe lwyddodd pedwar o fyfyrwyr BA Cymraeg Academi Hywel Teifi i ennill Prif Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol newydd eleni, gan dderbyn £3,000 dros gyfnod o dair blynedd am ddilyn o leiaf 80 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae saith myfyriwr sy'n astudio Daearyddiaeth wedi derbyn Ysgoloriaeth Cymhelliant, sy'n werth £1,500 dros yr un cyfnod, ac fe fydd rhaid iddyn nhw astudio o leia' 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â'r arian, fe fyddan nhw'n cael cyfnodau gwerthfawr o brofiad gwaith.

Mae cyfleon hefyd am Ysgoloriaethau Ymchwil gan y Coleg Cymraeg hefyd, ac ar hyn o bryd mae Steffan John o'r Adran Hanes wrthi'n astudio ar gyfer doethuriaeth, gan gyfrannu at waith dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr adran. Y gobaith yw penodi unigolyn i gwblhau doethuriaeth ym maes mathemateg cyn pen y flwyddyn hefyd.

### Y cyfle yn 2012-13

Yn 2012-13 bydd pedair o Brif Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gael ym Mhrifysgol Abertawe i is-raddedigion sydd am ddilyn graddau yn y pynciau canlynol:
**Cymraeg (fel anrhydedd sengl)**
Graddau cyd-anrhydedd ym meysydd:
**Astudiaethau'r Cyfryngau, Cymraeg, Daearyddiaeth, Ieithoedd Modern**
Bydd Ysgoloriaethau Cymhelliant ar gael ym meysydd:
**Daearyddiaeth, Ieithoedd Modern, Y Gyfraith, Nyrsio**

Am fwy o wybodaeth ac i wneud cais, ewch i www.mantais.ac.uk. Am ateb i gwestiwn penodol am un o'r cyrsiau, gallwch e-bostio;
**astudio@abertawe.ac.uk**

# Cofiwch!

## Dyddiadau i'ch dyddiadur

**15 Ionawr 2012** – dyddiad cau cyflwyno cais UCAS. Os nad ydych wedi gwneud eich dewisiadau chi eto ac eisiau clywed mwy am Brifysgol Abertawe, cysylltwch â ni: astudio@abertawe.ac.uk

**15 Ionawr 2012** – dyddiad cau cyflwyno cais am Brif Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol – gwerth hyd £3,000 dros dair blynedd.

**Mawrth 2012** – amser ymgeisio am gyllid myfyrwyr. Cadwch lygad ar www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk

**Mai 2012** – gallwch wneud cais ar-lein am lety ym Mhrifysgol Abertawe o fis Mai ymlaen. Os hoffech chi fyw gyda siaradwyr Cymraeg eraill mewn fflatiau ar y campws neu ym Mhentref Myfyrwyr Hendrefoelan, cofiwch ddewis yr opsiwn ar eich ffurflen gais am lety.

**Mai 2012** – cofiwch ymweld â ni ar faes Eisteddfod yr Urdd Eryri

**10 Gorffennaf 2012** – cynhadledd ar gyfer athrawon cyfrwng Cymraeg ym Mhrifysgol Abertawe. Cyfle i ddysgu mwy am y cyfleon sydd i fyfyrwyr yn Abertawe ac i drafod gofynion addysg uwch yn gyffredinol.

**Awst 2012** – bydd stondin Prifysgol Abertawe yn llawn digwyddiadau yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg – dewch draw i ddweud helo a chwrdd â staff a myfyrwyr.

**16 Awst 2012** – Canlyniadau Lefel A, pob lwc!

**Medi 2012** – dechrau yn y Brifysgol. Bydd croeso arbennig i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg newydd ym Mhrifysgol Abertawe!

**Diwrnodau Agored 2012**
**Prifysgol Abertawe**
Dydd Sadwrn 30 Mehefin 2012
Dydd Sadwrn 6 Hydref 2012

Lluniau: Chris Reynolds, Huw Bowen, Turnip Starfish